**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (53)**

**Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar Ymchwiliadau Heddlu De Cymru**

**Eitem 3**
**Datganiad:** Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Adolygiad Carlile

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002**
*NDM975* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002.

*NDM976* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 20 Chwefror 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 6**
**Dadl ar Adroddiad Terfynol yr Adolygiad i Ddyrannu Adnoddau y GIG**
*NDM974* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu Adroddiad yr Athro Townsend ar dargedu iechyd gwael yng Nghymru;

2. Yn cymeradwyo'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru;

3. Yn cydnabod y bydd y broses o'i roi ar waith yn dibynnu ar lefel twf mewn gwahanol ardaloedd, lle bydd pob rhan o Gymru yn parhau i weld cynnydd yn y swm a ddyrennir, er mwyn cyllido cynnydd yng nghostau'r GIG a lwfans i ariannu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a datblygu gwasanaethau;

4. Yn ailddatgan pwysigrwydd cyfraniad parhaus y gronfa anghydraddoldebau iechyd wrth fynd i'r afael ag amddifadedd iechyd ym mhob rhan o Gymru;

5. Yn edrych ymlaen at ddechrau'r broses weithredu ym mis Ebrill 2003;

6. Yn nodi'r gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud er mwyn mireinio'r fformwla cyn ei rhoi ar waith gan gynnwys gwasanaethau meddygol cyffredinol, a materion gwledig a threfol.

E-bostiwyd copi o adroddiad yr Athro Townsend ar dargedu iechyd gwael yng Nghymru at yr Aelodau ar 26 Chwefror 2002.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1) + (2)
(3) + (4) + (5)

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ym mhwynt 1 rhoi "nodi" yn lle "croesawu".

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Dileu pwyntiau 2, 3, 4, 5 a 6 a rhoi yn eu lle:

2. Yn nodi ymhellach y comisiynwyd Adroddiad Townsend cyn i'r Weinyddiaeth benderfynu'n ddisymwth y dylid cael gwared ar yr Awdurdodau Iechyd;

3. Yn cydnabod nad yw'r argymhellion ynghylch ailddyrannu adnoddau yn Adroddiad Townsend wedi'u dadansoddi eto ar lefel y Byrddau Iechyd Lleol;

4. Yn credu y dylid caniatáu i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd ymsefydlu cyn ystyried cyflwyno fformiwla newydd i ddyrannu adnoddau;

5. Yn croesawu'r argymhellion hynny yn Adroddiad Townsend sy'n trafod materion ac eithrio'r fformiwla dyrannu adnoddau, ac yn galw am eu rhoi ar waith ar unwaith;

6. Yn cydnabod y bydd angen rhoi mwy o arian i'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd oni newidir y fformiwla dyrannu adnoddau.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 5, ar ôl 'Ebrill 2003' rhoi;
ond yn nodi bod dyrannu adnoddau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr Awdurdodau Iechyd, a fydd yn peidio â bod ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 6 ar ôl "gwledig a threfol" rhoi;
ac yn galw ar y Gweinidog i sicrhau y daw'r fformiwla ddiwygiedig yn ôl i'r cyfarfod llawn i'w chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;
Yn nodi bod y cyllid annigonol a geir drwy Fformiwla Barnett yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod digon o gapasiti yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru i ateb yr angen.

Cliciwch yma i weld y Adroddiad Athro Townsend ar dargedu iechyd gwael yng Nghymru - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 7**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**

**NDM977 TYNNWYD YN OL**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi y lefelau annerbyniol o uchel amddifadedd, allgau cymdeithasol a thanberfformiad economaidd yng Nghymoedd diwydiannol y De

2. Yn datgan ei hyder bod modd datrys y problemau yma ac i ryddhau potensial y Cymoedd i gyfrannu’n llawn unwaith eto i lewyrch economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

i) i sicrhau bod strategaeth adfywio rhanbarthol integredig i’r Cymoedd yn cael ei llunio a’i gweithredu gyda thargedau clir ar gyfer nifer y swyddi ychwanegol sy'i angen

ii) i osod yn eu lle trefniadau strwythurol priodol, gan gynnwys penodi gweinidog cabinet, i gyflawni’r gwaith

***Bydd Jocelyn Davies yn cynnig Cynnig Trefniadol dan Reol Sefydlog 6.18 i ddwyn y cynnig hwn, a ohiriwyd yn y cyfarfod llawn ar 26 Chwefror, yn ei flaen:***

*NDM968* - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Gresynu wrth fethiant Llywodraethau 'Llafur Newydd' y DU a Chymru i ddiogelu a gwella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru

2. Nodi'r methiant trychinebus i gyflawni'r addewid i leihau amseroedd aros ysbytai yng Nghymru, ac yn

3. Mynnu bod camau effeithiol yn cael eu cymryd ar bob lefel i ddiwallu anghenion iechyd pobl Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
"Nodi methiant y Weinyddiaeth Lafur/Ryddfrydol i godi'n sylweddol nifer y cleifion mewnol sy'n cael eu trin yng Nghymru."

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 7 Mawrth 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**